

DOLEN Y TAB 107

20-21 Mai 2022

Oedfa Fore Sul 22 Mai am 11

Yng nghwmni Lyn West a'r Parchedig Gethin Rhys gydag Eleri'n cyfeilio.

YR OEDFAON NESAF

Mai

29 Geraint Rees

Mehefin

5 Dafydd Iwan a Helen Prosser

12 Aled Edwards a Nia Williams

19 Glenys Roberts

26 Ann ac Emlyn Davies

Hefyd ddydd Sul 22 Mai

12:00 Oedfa Radio Cymru

Gwasanaeth dan ofal Ariadne van den Hof, Shooter's Hill, Llundain.

12:30 Radio Cymru – Bwrw Golwg

John Roberts a'i westeion yn trafod materion moesol a chrefyddol.

19.30 Dechrau Canu Dechrau Canmol

Bydd Ryland yn ymweld ag Eglwys y Grog, Mwnt, i glywed am y gobaith wedi'r difrod yn yr eglwys. Cawn berfformiad gan gân *Ar ôl Tri*, a daw'r canu mawl o Gapel Mair, Aberteifi, dan arweiniad Rhys Griffiths.

E–fwletin Cristnogaeth 21

Bob bore Sul www.cristnogaeth21.cymru

Dymuniadau Gorau

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Shelagh Griffiths sydd yn derbyn triniaeth yn yr ysbyty ar hyn o bryd.

Llwyddiant Ysgubol

Llongyfarchiadau i Sarah Halliday, un o drigolion Efail Isaf, am drefnu bore coffi llwyddiannus iawn yn y Ganolfan fore dydd Mawrth i godi arian at achos teilwng sy'n agos at ei chalon, sef nysys Dementia UK. Trefnwyd y digwyddiad yn briodol iawn yn ystod Wythnos Gweithredu Dementia a hynny er cof am ddiweddar dad Sarah, oedd â dementia fasciwlar.

Newyddion gwyh felly oedd clywed bod cynifer o bentrefwyr ac aelodau'r Tabernacl wedi troi allan i gynorthwyo gyda'r trefniadau ac i gefnogi'r apêl. Arwydd gobeithiol nid yn unig ein bod o'r diwedd yn dychwelyd at rywbeth tebyg i normalrwydd wedi'r pandemig, ond bod ein awydd i gefnogi achosion teilwng o fewn ein cymuned a thu hwnt yn fyw ac yn iach. Eisoes llwyddwyd i godi'r swm anrhydeddus o £625 i gefnogi'r achos, gyda rhagor i ddod. Profodd yr achlysur yn llwyddiant ysgubol hefyd i bwysigrwydd y gwaith o adeiladu pontydd cadarn rhwng cynulleidfya'r Tabernacl a thrigolion Efail Isaf.



Cyfundeb Dwyrain Morgannwg Cwrdd Chwarter

Lansiad Ymgyrch Eglwys Dementia-gyfeillgar

Am 7.30
Nos Fercher 25 Mai 2022
Capel y Tabernacl, Efail Isaf



Merched y Tab



SGŴRS DROS BANED AM AIL DDECHRAU CŴRDD

10.30 Bore Gwener 27 Mai
Y Ganolfan

Croeso i Aelodau 'Hen' a Newydd

Briwsion o'r Bwrdd

Cynhaliwyd cyfarfod Mai o'r Bwrdd nos Fawrth dan gadeiryddiaeth Edwyn Evans. Rhoddwyd sylw dyledus i faterion niferus y byddai'n amhosibl gwneud cyfiawnder â phob un yma. Dyma grynodeb o rai o'r materion dan sylw.

Costau Tanwydd

Gan fod cytundeb trydan presennol y Tabernacl yn dod i ben ddiwedd Mai a'r tâl am adnewyddu'r cytundeb am ddwy flynedd arall wedi mwy na dyblu, bu aelodau Pwyllgor y Meddiannau yn ymchwilio i weld oedd modd symud at gyflenwr rhatach. Ond yn wyneb yr ansicrwydd economaidd presennol mae'r elfen gystadleuol ymhlith y cwmnïau wedi diflannu'n llwyr. Bydd raid derbyn y bydd biliau trydan a nwy yn llawer uwch yn y tymor byr o leiaf. Er mwyn ceisio ysgafnau'r baich ariannol i'r eglwys mae'r Bwrdd wedi dechrau ystyried pa fesurau fydd yn rhaid eu mabwysiadu i leihau'r costau a hefyd i godi'r ffioedd am hurio'r Capel a'r Ganolfan. Bydd y Bwrdd yn dychwelyd at y mater pan ddaw'r sefyllfa'n gliriach.

Eglwys Hybrid

Adroddwyd fod y cais am nawdd gan Gyfundeb Dwyrain Morgannwg i uwchraddio'r offer technegol yn llwyddiannus. Felly rhwng nawdd y Cyfundeb a chyfraniad Ymddiriedolwyr Pantyfedwen mae swm hyd at £3,500 ar gael i wireddu'r cynllun. Cytunwyd i gysylltu gyda Vaughan Sounds, Llanelli a KT Electronics, Caerdydd, dau gwmni profiadol yn y maes, am amcanbris i osod y system. Yn y cyfamser diolchwyd i'r tîm sy'n rhannu dasg o ffrydio'r oedfaon o'u ffonau symudol, sef Aled Illtud, Geraint a Gwion Rees a Hefin Gruffydd.

Cydllynu'r Suliau

Croesawyd y newyddion fod tri o'r aelodau, sef Helen Prosser, Rhiannon Humphreys a Heulyn Rees wedi cytuno i gydlynu'r dasg o lenwi'r Suliau, gwaith y bu Geraint Rees yn gyfrifol amdano dros nifer o flynyddoedd.

Adroddiadau

Derbyniwyd adroddiadau cadarnhaol iawn am holl weithgareddau'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol, Pwyllgor y Meddiannau, yr Ysgol Sul a gwaith Eleri Mai gyda'r Twmiaid, y Twmiaid Bach ac yn y gymuned ehangach. Pob un yn tystio bod yr eglwys wedi goroesi'r pandemig yn llwyddiannus a bod yr aelodau'n barod i wynebu heriau newydd mewn ffydd a gofaith.

Cofiwch fod modd anfon cofnodion y Bwrdd at unrhyw aelod o'r Tabernacl sydd am derbyn copi wedi iddynt gael eu cadarnhau gan y Bwrdd. Cysylltwch gyda'r Ysgrifennydd at gehpengwern@yahoo.co.uk.

CYFUNDEB DWYRAIN MORGANNWG

Taith Gerdded
Heddwch yn y Ddinas
Arweinydd: Jon Gower

Bae Caerdydd
10 Bore Sadwrn, 4 Mehefin 2022



Man Cychwyn:
Grisiau Senedd Cymru, CF10 4PH

Rhowch wybod i Gwilym (gehpengwern@yahoo.co.uk) os ydych yn bwriadu dod ar y daith erbyn **Dydd Mercher 1 Mehefin**

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL 15-21 MAI

Bydd Apêl WCC eleni yn casglu arian i helpu Zimbabwe, sy'n dioddef newyn difrifol yn sgil newid hinsawdd. Ar ben hynny, mae prisiau bwyd wedi codi'n aruthrol yno oherwydd Rhyfel Putin yn Wcráin. Byddwn yn defnyddio'r dulliau a fabwysiadwyd ar ddechrau'r pandemig yn 2020 (sieciau a throsglwyddiadau banc) ar gyfer ein casgliad ni, ond bydd amlenni yng nghyntedd y capel i'r rhai sy'n dymuno eu defnyddio.

Bydd modd cyfrannu drwy gydol mis Mai, a bydd Casgliad Wcráin yn dod i ben dros dro, ac yn ailddechrau ym mis Mehefin.

Sieciau: yn daladwy i Capel y Tabernacl Cyf., gan nodi Wythnos Cymorth Cristnogol, at:

Arwyn Lloyd Jones, Tŷ Newydd, 39 Parc Bryn Derwen, Llanharan, Pontyclun CF72 9TU.

Trosglwyddiad Banc: gyda'ch enw a nodyn yn enwi Wythnos Cymorth Cristnogol

Côd Didoli: 30 - 96 - 72

Rhif Cyfrif: 03607499

**Gyda diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus
Y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol**

'DIWRNOD MAS 'YR YSGOL SUL'



AMELIA TRUST FARM
Supporting vulnerable people

Pawb i gyrraedd rhwng 10 - 10.30

Dydd Sul 12fed o Fehefin

Oedolion - £4.00 Plant am ddim



Dewch a'ch picnic gyda chi

Cylchlythyr wythnosol Capel y Tabernacl Cyf. yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel www.tabernacl.org.

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: 07710 237327 / 01443 225205 / gehpengwern@yahoo.co.uk